

**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau o'r Cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ar
26 Hydref 2023
Fe'i cynhaliwyd yn 3.7, CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams
Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngwyd**

Yn bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Polisi Cenedlaethol ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (trwy ffrwd fyw).
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)
Yn bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd

Ymddiheuriadau:		
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
Claire Sullivan	(CS)	Cynrychiolydd ochr y staff

Dechreuodd y cyfarfod am 14:48

ICC 2023.10.26/1	Croeso ac Ymddiheuriadau
Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion ar-lein. Nododd fod hwn yn gyfarfod eithriadol o'r Bwrdd ynghylch un mater, yn deillio o'r dyddiad ymateb gofynnol i Lywodraeth Cymru.	
ICC 2023.10.26/2	Datganiadau o Fuddiannau
Gofynnodd JW am Ddatganiadau o Fuddiannau heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o'r fath.	
ICC 2023.10.26/3	Cynllun Gweithredu Fframwaith Codi Llais heb Ofn
Cyflwynodd PV yr adroddiad. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Fframwaith Codi Llais heb Ofn i Fyrddau Iechyd y GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau. Galwodd ar bob corff iechyd i gwblhau hunanasesiad i bennu llinell sylfaen yn erbyn gofynion y Fframwaith ac i lunio cynllun gweithredu. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynllun gweithredu drafft i'w ystyried, ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Hydref 2023. Nododd JW fod MM wedi anfon y sylwadau canlynol ymlaen: roedd yn cefnogi'r cynllun ac roedd o'r farn y byddai'n ategu'r gwaith parhaus ar ddiwylliant sefydliadol. Amlygodd MM bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng y Fframwaith hwn a'r prosesau sydd eisoes ar waith ar gyfer codi cwynion ac o bodloni gofynion y Gymraeg. Gorffennodd MM drwy nodi bod y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol mewn sefyllfa dda i gymryd sicrwydd ynghylch cyflawni yn erbyn y cynllun, ar ran y Bwrdd llawn. Cadarnhaodd PV ei fod wedi cynnwys sylwadau MM yn y cynllun gweithredu hunanasesu, gan gynnwys cynllun hyfforddiant a chyfathrebu hefyd. Ystyriodd y Tîm Gweithredol Busnes y cynllun ar 17 Hydref ac roedd wedi cryfhau ei ddarpariaethau mewn perthynas â gwaith datblygu diwylliannol parhaus, ynghyd â chyfraniad cadeiryddion y Rhwydwaith Staff. Roedd y Bwrdd wedi: • Ystyried yr adroddiad,	

- **Mabwysiadu'r** Fframwaith Codi Llais heb Ofn
- **Ystyried a chymeradwyo'r** Cynllun Gweithredu Codi Llais heb Ofn i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

ICC 2023.10.26/4	Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf
-------------------------	--

Bydd cyfarfod ffurfiol nesaf y Bwrdd ar 30 Tachwedd 2023.

ICC 2023.10.26/5	Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus
-------------------------	---------------------------------

Daeth y cyfarfod i ben am 14:05

WEDI'I GADARNHAU